FRANCIS, JOHN OSWALD (1882 - 1956), dramodydd

Enw: John Oswald Francis
Dyddiad geni: 1882
Dyddiad marw: 1956
Rhiant: Dorothy Francis (née Evans)
Rhiant: David Francis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: dramodydd
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 7 Medi 1882 yn fab David Francis, Dowlais, Morgannwg, a'i briod Dorothy (ganwyd Evans). Yr oedd yn un o ddisgyblion cyntaf ysgol ganolradd Merthyr Tudful a graddiodd yn Aberystwyth a'r Sorbonne, cyn mynd yn athro i ysgol sir Glynebwy, ac wedyn i ysgol ramadeg Holborn, Llundain. Ar ôl bod yn y fyddin yn Rhyfel Byd I aeth i'r gwasanaeth sifil, yn swyddog yn y Mudiad Cynilo Cenedlaethol. Ymddeolodd c. 1953, wedi derbyn M.B.E. am ei waith. Ond am ei ran yn ailennyn diddordeb yn y ddrama yng Nghymru y cofir ef. Yr oedd y dramodwyr R.G. Berry a David Thomas Davies yn gyfoedion iddo. Tuag 1910 dechreuodd ysgrifennu dramâu i gynfyfyrwyr Aberystwyth. Yr oedd *The Poacher*, a lwyfannwyd gyntaf yn Aberystwyth yn 1914, yn gampwaith a ddangosai ei feistrolaeth a'i gynildeb wrth greu cymeriadau cefn gwlad Cymru. Cafodd ei ddrama ysgafn *Birds of a feather* gyfnod nodedig o lwyddiannus ar lwyfan y London Coliseum, 1914-18, a pherfformiwyd hi mewn llawer rhan o'r byd hyd at ei farw. Drama hanesyddol oedd *Howell of Gwent* (1934) a berfformiwyd yng Nghymru a Llundain gan Gwmni Theatr Cenedlaethol Cymru. Un o'i weithiau gorau oedd *The dark little people* (1922). Ond ei waith gorau oll y mae'n debyg oedd ei ddrama hir mewn pedair act, *Change* (1913), a oedd yn ddrama rymus am fywyd mewn ardal ddiwydiannol yng Nghymru ac a enillodd iddo wobr Howard de Walden. Troswyd llawer o'i ddramâu i'r Gymraeg a dysgodd siarad yr iaith pan oedd yn ganol-oed. Cyhoeddwyd ei ysgrifau yn *The legend of Wales* (1924) ac ysgrifennodd fraslun o hanes C.P.C., Aberystwyth yn 1922. Yr oedd yn ddramodydd o fri a lwyddai i godi chwerthin a thynnu dagrau bob yn ail ond yr oedd yn wylaidd ynghylch ei ddoniau ei hunan ac ni pheidiai â synnu at y llwyddiant diamheuol a ddaeth i ran ei ddramâu un act ar lwyfannau Prydain. Cafodd gan Brifysgol Cymru radd M.A. er anrhydedd

Pan oedd dros ei 70 mlynedd oed dysgodd lithrhedfan. Bu farw yn fab gweddw ar 1 Hydref 1956 yn y Bwthyn, 13 Dingwall Gardens, Golders Green, Llundain, lle y trigai gydag un o'i chwiorydd.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who's who in Wales (1921)

Y Ddinas, Cylchgrawn Cymry Llundain, Tachwedd 1954, Tachwedd 1956

The Times, 2 Hydref 1956, 10

The Liverpool Daily Post, 2 Hydref 1956

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: J. O. Francis

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 91582068

Wikidata: Q18535623

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu